Ysgol Gymraeg Morswyn
Caergybi
Ynys Môn
LL65 2TH

23/09/2025

Annwyl arweinwyr a staff

**Ymweliad Interim:** Medi 2025

Ymwelodd tîm o arolygwyr ag Ysgol Gymraeg Morswyn yn ddiweddar i ystyried cynnydd mewn perthynas â dau argymhelliad o'r arolygiad craidd blaenorol. Manteisiodd y tîm arolygu ar y cyfle i arsylwi ar addysgu a dysgu, siarad â disgyblion a staff, craffu dogfennaeth ac edrych ar samplau o waith disgyblion. Isod, ceir crynodeb o ganfyddiadau'r ymweliad.

## Ffocws yr ymweliad

### Miniogi prosesau hunanwerthuso gan fonitro a gwerthuso effaith yr addysgu ar y dysgu

- Mae arweinwyr wedi datblygu amserlen ddefnyddiol ar gyfer monitro a gwerthuso gwaith yr ysgol, sy’n cynnwys mewnbwn rheolaidd gan staff a’r corff llywodraethol. Maent yn cefnogi ei gilydd yn dda ac yn cydweithio’n effeithiol fel un tîm cytûn.
- Mae arweinwyr ac athrawon yn casglu tystiolaeth o deithiau addysgu a dysgu ac yn craffu ar lyfrau yn gyson. Ar y cyfan, maent yn adnabod rhai o’r cryfderau a’r meysydd sydd angen eu gwella yn y ddarpariaeth, gan gynnwys safonau'r dysgu. Mae arweinwyr yn cydnabod yr angen i werthuso effaith yr addysgu ar ddatblygiad ym medrau a chynnydd disgyblion ymhellach.
- Mae arweinwyr yn clustnodi blaenoriaethau addas ar gyfer eu cynnwys yng nghynlluniau gwella yr ysgol. Er hyn, nid yw’r gwerthusiadau cynnydd yn erbyn y blaenoriaethau yn ddigon clir bob amser er mwyn galluogi’r arweinwyr i fesur llwyddiant yn ddigon effeithiol.

Estyn, Llys Angor, Heol Keen, Caerdydd, CF24 5JW Ffôn: 02920 446446 ymholiadau@estyn.llyw.cymru www.estyn.llyw.cymru

Estyn, Anchor Court, Keen Road, Cardiff, CF24 5JW Telephone: 02920 446446 enquiries@estyn.gov.wales www.estyn.gov.wales

Mae Estyn yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg a Saesneg. Bydd gohebiaeth a dderbynnir yn y naill iaith neu’r llall yn cael yr un flaenoriaeth.

Estyn welcomes correspondence in both English and Welsh. Correspondence received in either language will be given equal priority.

- Mae athrawon yn cydweithio'n bwrpasol gyda staff ysgolion y dalgylch er mwyn gwerthuso'r ddarpariaeth a rhannu arferion addysgu a dysgu effeithiol. Mae hyn, er enghraifft, yn cael effaith cadarnhaol ar wella'r adborth a gynigir i ddisgyblion er mwyn eu cefnogi i adnabod a gweithredu ar y camau nesaf yn eu dysgu.

## Cefnogi disgyblion i siarad Cymraeg yn gyson yn y dosbarth ac o gwmpas yr ysgol

- Mae gan y pennaeth weledigaeth glir er mwyn hybu'r iaith Gymraeg a'r ymdeimlad o Gymreictod ymysg disgyblion a chymuned yr ysgol.
- Mae staff yn cydweithio'n bwrpasol i gynnig ystod o brofiadau diwylliannol Cymreig gwerthfawr i ddisgyblion, gan gynnwys cystadlu mewn eisteddfodau lleol a chenedlaethol. Maent yn trefnu ystod o weithgareddau allgyrsiol difyr ac ysgogol lle caiff y disgyblion eu hannog i ddatblygu eu medrau llafar Cymraeg yn effeithiol.
- O fewn sesiynau ffurfiol, mae disgyblion gan amlaf yn defnyddio'r Gymraeg yn gynyddol hyderus. Er hyn, mae llawer ohonynt yn tueddu i droi i gyfathrebu yn Saesneg wrth gyd-chwarae ar fuarth yr ysgol.
- Mae gan yr ysgol gyswllt werthfawr gydag ysgol Wyddelig ei hiaith yn Dun Laoghaire yn yr Iwerddon. Mae'r pennaeth yn cynllunio cyfleoedd cyfoethog i'r disgyblion ymweld â'r ysgol a dysgu am yr iaith Wyddeleg a'r cysylltiadau â'r iaith Gymraeg. Mae hyn yn hynod effeithiol wrth hybu dealltwriaeth y disgyblion o'u threftadaeth a phwysigrwydd siarad Cymraeg fel un o'r ieithoedd lleiafrifol.
- Mae'r pennaeth yn cydnabod bod staff yn gweithredu dulliau addysgu a dysgu yn briodol wrth gefnogi disgyblion i ddefnyddio'r Gyrmaeg fel rhan annatod o'u dysgu a'u chwarae. Mae staff sy'n addysgu y disgyblion ieuengaf yn cyflwyno geirfa a phatrymau iaith yn llwyddiannus. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar fedrau llafar Cymraeg y disgyblion hyn ar gychwyn eu gyrfa ysgol. Mae arweinwyr yn cydnabod yr angen i gyflwyno'r strategaeth hon gyda disgyblion ym mlynyddoedd uwch yr ysgol er mwyn eu cefnogi i wneud cynnydd cadarn yn eu medrau Cymraeg dros amser.

Gellir dod o hyd i adroddiad arolygu craidd diweddaraf yr ysgol/UCD a gwybodaeth bellach am broses a phwrpas ymweliadau interim ar ein gwefan:
http://www.estyn.llyw.cymru/darparwr/6602177

Yn gywir

LMiles.

**Liz Miles**
Cyfarwyddwr Cynorthwyol